

Diwygio'r Senedd: y camau nesaf

Crynodeb o'r argymhellion

Medi 2020

Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i ymchwilio i argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ynglŷn â maint y Senedd a sut y mae'r Aelodau'n cael eu hethol.

Mae'r materion hyn yn ganolog i ddemocratiaeth gynrychioliadol yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod angen gwneud mwy o hyd i adeiladu consensws gwleidyddol ynghylch cynigion diwygio penodol, ond credwn fod tystiolaeth glir a chymhellol bod angen diwygio etholiadol. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi ein hargymhellion. Gellir gweld y manylion llawn yn ein hadroddiad: *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*.

Mae'n destun gofid mawr bod grŵp Ceidwadwyr Cymru yn y Senedd wedi penderfynu peidio â chymryd rhan, a bod grŵp Plaid Brexit wedi tynnu'n ôl yn hwyr ar ôl i ni ddod i gasgliadau cychwynnol ar lawer o'r materion.

Bydd deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd yn gofyn am gonsensws gwleidyddol eang, gan gynnwys uwch fwyafrif o 40 Aelod. Gobeithiwn, felly, y bydd pob plaid wleidyddol sy'n ymgeisio yn etholiad Senedd 2021 yn myfyrio'n ofalus ar ein casgliadau a'n hargymhellion; y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddod i gonsensws ar gynigion diwygio; ac y byddant yn ymrwmo i gymryd camau deddfwriaethol yn gynnar yn y Chweched Senedd i ddiwygio ein deddfwrfa a chryfhau ein democratiaeth yng Nghymru.

Dawn Bowden AS

Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd



Faint o Aelodau a sut y dylid eu hethol

1. Rydym yn cytuno â'r Panel Arbenigol bod y Senedd yn rhy fach ar hyn o bryd, ac yn argymhell y dylid cyflwyno Bil yn gynnar yn y Chweched Senedd i:

- **Gynyddu maint y Senedd i rhwng 80 a 90 Aelod.**
Credwn y bydd buddsoddi yn ein democratiaeth yn gost-ffeithiol trwy wella llywodraethu a chynrychiolaeth, gwella gwaith goruchwyllo a chraffu ar Lywodraeth Cymru, ac arwain at bolisi mwy effeithiol, gwariant mwy effeithlon a gwell deddfwriaeth.
- **Cyflwyno system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV).**
Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr, yn cynnal cysylltiadau clir rhwng Aelodau ac etholaethau, ac yn creu canlyniadau etholiadol mwy cyfrannol.
- **Sefydlu trefniadau adolygu ffiniau.**
Yn ogystal â sefydlu etholaethau STV aml-Aelod, bydd trefniadau adolygu ffiniau parhaus yn helpu i gynnal cynrychiolaeth gyfartal a phŵer pleidleisio i bobl ledled Cymru.

2. Os bydd y diwygiadau yn dod i rym yn etholiad 2026, **mae angen cyrraedd consensws gwleidyddol yn gynnar iawn yn y Chweched Senedd** ar y diwygiadau arfaethedig a phwy fydd yn datblygu ac yn arwain y ddeddfwriaeth.

Ethol Senedd fwy amrywiol

3. Rydym yn credu'n gryf y dylid cael **niferoedd cyfartal o fenywod a dynion yn y Senedd**, ac y dylid cael **Aelodau o'r Senedd o amrywiaeth o gymunedau a chefnidiroedd amrywiol**.

4. Hoffem weld **gweithredu cadarnhaol i helpu i oresgyn yr anghydraddoldebau a'r rhwystrau strwythurol mewn cymdeithas** sy'n gwneud hyn yn anodd. Mae rhai o'r camau yr ydym wedi'u hargymhell yn cynnwys:

- Pleidiau gwleidyddol yn **cyhoeddi gwybodaeth am ba mor amrywiol yw eu hymgeiswyr etholiadol a chynlluniau yn nodi sut y byddant yn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant** yn y ffordd maen nhw'n gweithio.
- Mwy o waith trawsbleidiol ar sut y gallai **rhannu swyddi ar gyfer Aelodau o'r Senedd a cwotâu amrywiaeth ar gyfer nodweddion gwarchoddedig heblaw am ryw** weithio'n ymarferol.

- Darparu **cymorth ariannol i bobl ag anableddau sydd am ymgeisio mewn etholiad**, a newid y rheolau fel nad yw **gwariant o ganlyniad i anabledd, gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgyrch etholiadol**.

5. Gallai pleidiau gwleidyddol eisoes wneud rhai o'r pethau hyn yn wirfoddol, ac rydyn ni'n credu y dylen nhw wneud hynny. Byddai angen deddfwriaeth ar gamau eraill. Mae pwerau'r Senedd i wneud cyfreithiau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfyngedig. Cyn cynnwys cwotâu rhyw neu amrywiaeth mewn Bil diwygio Senedd, byddai'n rhaid i'r Aelodau ystyried y terfynau hyn a'r effaith ar yr amserlenni cyffredinol pe na bai gan y Senedd y pwerau angenrheidiol i ddeddfu. Rydym wedi argymhell y **dylid gofyn i Lywodraeth y DU sicrhau y byddai mesurau i gynyddu amrywiaeth aelodaeth y Senedd o fewn pwerau'r Senedd**.

Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd

6. Mae gan bobl yng Nghymru wahanol lefelau o ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r Senedd a'i Haelodau yn ei wneud a sut mae Aelodau'n cael eu hethol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach annog pobl o wahanol gymunedau neu gefndiroedd i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd neu i ystyried ymgeisio mewn etholiad. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach esbonio pam rydyn ni'n credu y dylid cynyddu nifer yr Aelodau.

7. Mae'n bosibl y bydd y gwaith sy'n digwydd eisoes i ddweud wrth bobl am y newidiadau i bwy all bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac enw newydd y Senedd yn helpu, ond mae angen i ni **wneud yn siŵr bod cyfathrebu yn cyrraedd pawb yng Nghymru**, a'u hannog i bleidleisio ac i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd. Credwn y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r Senedd ddarparu **mw y wybodaeth am yr hyn y mae'r Aelodau'n ei wneud a sut mae gwaith y Senedd yn gwneud gwahaniaeth** i'r materion y mae pobl yn poeni amdanynt.

8. Roeddem wedi bwriadu cynnal cynulliad dinasyddion i ddod â phobl o bob rhan o Gymru ynghyd i ddysgu am rôl y Senedd a thrafod faint o Aelodau y dylai'r Senedd eu cael. Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID-19, nid oeddem yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Rydym yn argymhell y **dylid cynnal cynulliad dinasyddion fel rhan o ddatblygu Bil diwygio'r Senedd**.

Chweched Senedd 60 Aelod

9. Ni ellir cynyddu nifer yr Aelodau tan 2026. Mae hyn yn golygu y bydd angen **mesurau dros dro** i helpu'r 60 Aelod o'r Chweched Senedd i gyflawni eu rolau cynrychioliadol, craffu a deddfwriaethol yn effeithiol.

10. Bydd angen i'r Senedd ystyried pa mor dda y gallai gwahanol opsiynau weithio ac a allai fod unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Efallai y bydd yn bosibl dysgu gwersi o ffyrdd newydd o weithio a ddefnyddir yn ystod pandemig COVID-19, neu roi cynnig ar opsiynau eraill rhwng nawr a diwedd y Pumed Senedd.